# Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol CHC

## 16:45 ar 19 Tachwedd 2024

**Y Theatr Gwyddoniaeth, Techniquest, Bae Caerdydd**

### Presennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adra | Sarah Schofield | Grŵp Cadarn | Jason Wroe |
| Bron Afon | Alan Brunt | Grŵp Cadarn | Simon Morris |
| Cadwyn | Kyle Burgess | Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf | Auriol Miller |
| Caredig | Marcia Sinfield | Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf | John Chown |
| Cartrefi Cymoedd Merthyr | Michelle Reid | Grŵp Tai Pobl | Scott Sanders |
| ClwydAlyn | Rachel Storr-Barber | Stori | Andrew Belcher |
| Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf | Lesley Kirkpatrick | | |

### Ynghyd â

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bevan Buckland LLP | Llinos Williams | Cartrefi Cymunedol Cymru | Lisa Byrne |
| Cartrefi Cymunedol Cymru | Abi Renshaw | Cartrefi Cymunedol Cymru | Ruth Dawson |
| Cartrefi Cymunedol Cymru | Andrew Martyn-Johns | Cartrefi Cymunedol Cymru | Stacy Thomas |
| Cartrefi Cymunedol Cymru | Andrew Vye | Cartrefi Cymunedol Cymru | Stuart Ropke |
| Cartrefi Cymunedol Cymru | Hugh Barrett | Cartrefi Cymunedol Cymru | Thomas Hoddell |
| Cartrefi Cymunedol Cymru | Jonathan Conway | Darpar Gadeirydd Bwrdd Annibynnol | Gerraint Oakley |
| Cartrefi Cymunedol Cymru | Katrina Michael | | |

Draft

## Ymddiheuriadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cartrefi Cymunedol Cymru | Aled Rowlands | Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf | John Watkins |
| Cartrefi Dinas Casnewydd | Ceri Doyle | Grŵp Tai Coastal | Debbie Green |
| Cartrefi Melin | Paula Kennedy | Linc Cymru | Monique Robins |
| Cymdeithas Tai Dewis Cyntaf | Adrian Burke | Stori | Sara Sutton |
| Cymdeithas Tai Merthyr Tudful | Karen Courts | Tai Aelwyd | Sharon Lee |
| Cymdeithas Tai Taf | Helen White | Wales & West Housing | Anne Hinchey |

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd Andrew Martyn-Johns bawb i'r cyfarfod, gan nodi'r ymddiheuriadau uchod. Nododd y Cadeirydd fod cworwm yn y CCB.

## 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2023

Cyfeiriwyd at y cofnodion a nodwyd eu bod yn gywir.

**Penderfyniad: Cymeradwywyd cofnodion y CCB a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2023 – cynigiwyd gan Jason Wroe ac eiliwyd gan Alan Brunt.**

## 3. Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 4. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cafodd Stuart Ropke ei wahodd gan Andrew Martyn Johns, Cadeirydd CHC, i gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr. Dangoswyd fideo byr i roi sylw i'r holl waith a wnaeth tîm CHC ar ran y sector yn 2023/24.

Cadarnhaodd Stuart mai dau uchafbwynt y flwyddyn oedd ein cynnig i aelodau a'r llu o enillion polisi. Diolchwyd i aelodau am weithio gyda CHC drwy gydnabod na fyddai dim o'r hyn a gyflawnwyd eleni wedi bod yn bosibl heb eu cefnogaeth barhaus. Mae hyn yn cadarnhau y gall CHC ateb eu hanghenion oherwydd bod ymroddiad parhaus aelodau yn parhau i godi eu llais a chyfathrebu eu blaenoriaethau.

Diolchodd Stuart i aelodau'r Bwrdd am eu cefnogaeth drwy gyfnod heriol a phrysur, yn arbennig yn ystod y 6 mis cyntaf pan gynyddodd yr her. Nodwyd gwaith gwych y Bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Diolchodd Stuart hefyd i'r tîm staff mewn blwyddyn heriol llawn lle'r oedd adnoddau dan bwysau. Mae eu hymroddiad a'u hymrwymiad wedi galluogi CHC i ehangu i ofodau newydd y mae ein haelodau angen i ni fod ynddynt.

Er y dysgir gwersi o'r sefyllfa bresennol gyda Rhentu Cartrefi Cymru/EICR y bu gwaith arno ar y 7 mis diwethaf, cadarnhaodd Stuart fod angen mynd ati mewn ffordd wahanol yn y dyfodol ac y bydd angen i ni fel sefydliad wella ein craffu o ddeddfwriaeth. Caiff y gwersi a ddysgwyd hyd yma eu rhannu gyda'r aelodaeth ehangach unwaith yr aeth y papur i'r Bwrdd yr wythnos nesaf.

Gan edrych ymlaen i'r flwyddyn i ddod, sicrhawyd aelodau y bydd y Bwrdd yr wythnos nesaf yn ystyried model ffioedd sy'n gweithio i CHC. Gan fod dyfodol ffioedd allan ar gyfer ymgynghoriad, atgoffwyd aelodau i gynnig eu hadborth os na wnaethant hynny'n barod.

**Penderfyniad: Nodwyd yr adroddiad.**

## 5. Adroddiad y Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd mor falch y mae'n deimlo am y gwaith mae CHC yn parhau i'w wneud ar gyfer ei aelodau, rhanddeiiaid, y sector tai a thu hwnt ar draws diwydiannau eraill yng Nghymru. Soniodd am werth cydweithredu a pham fod CHC wedi cynrychioli cymdeithasau tai yn llwyddiannus am fwy na 35 mlynedd.

Er yr ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd a'r heriau a gyflwynant, mae'r ffocws ar gyflenwi ein Cynllun Corfforaethol 2023/2027 wedi parhau i fod ar gefnogi ein haelodau a gwneud y gwahaniaeth mwyaf posibl.

Gwahoddwyd aelodau i ystyried a dathlu llwyddiannau sylweddol y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r hyn a gyflawnwyd yn cynnwys:

- Y cynnig ymgysylltu newydd i aelodau, gyda dros 1,400 gweithred ymgysylltu rhwng Ebrill 2023-Chwefror 2024.
- Sicrhau newid polisi sylweddol ar gyfer SATC a setliad rhent o 6.7% ar gyfer 2024/25.
- Cefnogi cymdeithasau tai i ddiogelu eu tenantiaid rhag yr argyfwng costau byw. Yn 2023/24 rhoddodd cymdeithasau tai £1.3m mewn cymorth ariannol uniongyrchol fesul chwarter ar gyfartaledd, gyda 7,000 o denantiaid wedi derbyn cymorth ariannol.
- Sicrhau cynnydd o 7.8% yn y Grant Cymorth Tai i atal ac ymateb i ddigartrefedd yng Nghymru.

Dangosodd canlyniadau'r arolwg pyls ymysg Prif Swyddogion Gweithredol bod:

- 87.5% yn teimlo eu bod yn derbyn gwerth am arian gan CHC
- 100% yn teimlo'n hapus gyda lefel ymgysylltu gyda CHC

Wrth edrych ymlaen i 2025/26, cynigiodd y Cadeirydd sicrwydd y bydd y gwaith caled yn parhau fel y caiff llais ein aelodau ei glywed a'u bod yn cael yr hyn maent ei angen. Mae hyn yn cynnwys dull gweithredu cynaliadwy, gan adolygu'n feirniadol a dylanwadu ar ddiwygiadau diogelwch adeiladau a pharhau i ddylanwadu ar y fframwaith gosod rhenti.

Diolchodd y Cadeirydd i dîm staff CHC am eu holl waith caled, a dywedodd ei bod wedi gwir fwynhau'r 6 mlynedd ddiwethaf yn gweithio gyda thîm gwych o bobl . Bu'n fraint gweithio gyda thîm mor ymroddedig, angerddol ac ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl ar gyfer ein haelodau a'n rhanddeiliaid. Diolchodd hefyd i aelodau Bwrdd CHC am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau mewn cyfnod heriol ar gyfer y sector. Diolchodd yn olaf i'n holl aelodau am eu cefnogaeth i CHC dros y flwyddyn.

**Penderfyniad: Nodwyd yr adroddiad**.

## 6. Adroddiad y Trysorydd

Cyflwynodd y Trysorydd, Kyle Burgess, Adroddiad y Trysorydd a thynnu sylw at y canlynol:

- Cafodd y cyfrifon eu paratoi gan CHC yn unol â FRS102 a SORP Elusennau fel mewn blynyddoedd blaenorol a'u harchwilio gan Bevan Buckland LLP.
- Cafwyd adroddiad archwilio glân ar gyfer y flwyddyn, heb ddod â dim byd o gonsyrn i sylw'r Aelod. Mae'n adlewyrchu golwg wir a theg o weithgareddau CHC.
- Cynnydd yng nghyfanswm y gwarged i £134k oherwydd arbediad sylweddol mewn costau staff.
- Polisi Rheoli Trysorlys wedi'i adfywio gan ddefnyddio arian gwarged heb risg gormodol.
- P&R wedi rhoi cyfraniad Cymorth Rhodd o £4k i CHC.
- Cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu yn unol ag elw.
- Gwelwyd cynnydd o 5% mewn incwm o gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol, yn gyfanswm o £1.56m o ffioedd aelodaeth 2023/24. Cynnydd mewn incwm DOLI gan symud i adferiad cost llawn gan yr aelodaeth.
- Cynnydd sylweddol o 68% mewn incwm ffioedd cynhadledd oherwydd cynnig mwy o gynadleddau.
- Gostyngiadau mewn incwm secondiad a ffioedd hyfforddiant oherwydd symleiddio'r cynnig i ganolbwyntio ar wasanaethau craidd.
- Roedd gwariant yn 2023/24 yn £1.46m – gostyngiad o £22k (1.3%) ar y flwyddyn flaenorol.
- Gostyngodd costau staff gan £129k (11%) gyda chostau ailstrwythuro sylweddol yn 2022/23, priodolwyd yr arbedion i'r sylfaen cyflogau is ac na chafodd pob swydd eu llenwi am y flwyddyn gyfan. Dim effaith ar wasanaethau neu ddarpariaeth i aelodau.
- Cynnydd mewn darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb i aelodau, gan sicrhau gwerth am arian yn nhermau ymgysylltu.
- Gwariant sylweddol ar gyngor arbenigol wrth i CHC helpu'r sector i drin rhai materion cymhleth.

- Mantolen: Cyfanswm y cyllid a gariwyd ymlaen fel ar 31 Mawrth 2024 yw £239k.
- Mae'r arian a ddelir ychydig dros £1.53m ar ddiwedd y flwyddyn gyda rhagolwg llif arian cryf a dibynadwy ar gyfer y 18 mis nesaf a mwy.
- Mae'r rhwymedigaeth Pensiwn yn £538k ar ddiwedd 2023/24 ac mae gweinyddwyr y cynllun wedi strwythuro cynllun gostwng diffyg i ostwng hyn mewn dull wedi ei reoli dros y blynyddoedd i ddod.
- Llif arian: Ysgogodd gweithrediadau parhaus lif arian net o £354k yn ystod y flwyddyn. Nodwyd mai mater amseru yw hyn, gan i aelodau gael anfonebau un mis yn hwyrach na'r llynedd.
- Polisi Cronfeydd wrth Gefn: Adolygwyd yn ystod y flwyddyn, gan dargedu gwarged cyfartalog o £50k y flwyddyn yn y blynyddoedd i ddod. Amcangyfrifwyd mai cost gorchuddio 3 mis o gostau posibl dirwyn i ben yw £464k.

Diolchodd Kyle i'r archwilwyr Bevan Buckland LLP a roddodd lefel briodol o her ac arweiniad drwy gydol y flwyddyn. Diolchwyd i Llinos Williams, ein partner newydd, am ei gwasanaeth cyson ragorol. Diolchwyd hefyd i Katrina Michael am ddiwygio'r Polisi Rheoli Trysorlys ac am baratoi a dosbarthu cyfrifon statudol wedi eu hargraffu.

**Penderfyniad: Nodwyd yr adroddiad.**

## 7. Derbyn y Cyfrifon am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2024 a derbyn adroddiad yr Archwilydd

Cyflwynwyd Adroddiad yr Archwilydd gan Llinos Williams o Bevan Buckland LLP. Ategodd Llinos bod y datganiadau ariannol yn eu barn hwy yn rhoi golwg wir a theg o faterion y cwmni elusennol fel ar 31 Mawrth 2024 a'r adnoddau a dderbyniwyd a'r defnydd o adnoddau, yn cynnwys yr incwm a gwariant, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Cadarnhaodd Llinos y cafodd y cyfrifon eu paratoi'n gywir yn unol â'r Arfer Cyfrifeg a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Safon 102 Adroddiadau Ariannol a gofynion Deddf Cwmnïau 2006. Llofnododd Llinos Williams adroddiad yr archwilydd ar y cyfrifon ar 4 Tachwedd 2024.

**Penderfyniad: Cafodd y cynnig i dderbyn Cyfrifon CHC am y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2024 a derbyn adroddiad yr Archwilydd ei gynnig gan Jason Wroe a'i eilio gan Alan Brunt.**

**Penderfyniad: Cafodd y cynnig i dderbyn y Cyfrifon P&R ar gyfer y flwyddyn hyd 31 Mawrth 2024 ei gynnig gan Michelle Reid a'i eilio gan John Chown.**

## 8. Ailbenodi archwilwyr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

**Penderfyniad: Cafodd y cynnig i ailbenodi Bevan Buckland LLP fel archwilwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 (blwyddyn 2 o benodiad 3 blynedd yn amodol ar gymeradwyaeth flynyddol yn y CCB) ei gynnig gan Jason Wroe a'i eilio gan Scott Sanders.**

## 9. Penodi Aelodau Bwrdd CHC a P&R

Mae dau aelod Bwrdd, y Cadeirydd Andrew Martyn-Johns ac Andrew Vye, yn ymddeol o Fyrddau CHC a P&R, ar ôl gwasanaethu am yr uchafswm o 6 mlynedd ers eu penodi yn 2018.

Diolchodd y Cadeirydd i Andrew Vye am ei fewnbwn pan oedd yn gwasanaethu ar y Bwrdd. Nodwyd y cafodd ei gyngor doeth ei werthfawrogi yn ystod y 6 mlynedd ddiwethaf ac y bu'r Bwrdd yn effeithlon oherwydd ei her dros y cyfnod.

Diolchodd y Prif Weithredwr i Andrew Martyn-Johns am ei waith ar Fwrdd CHC fel Cadeirydd. Diolchwyd am ei ymdrechion ac am lywio'r Bwrdd dros y 6 mlynedd ers 2018. Mae'r Bwrdd yn amlwg mewn lle cryfach sy'n dyst o'i waith, arweiniad a chyngor doeth. Mynegwyd diolch am ei gefnogaeth i CHC ar ran y Bwrdd, staff CHC ac aelodau.

Mae **Atodiad A** yn nodi aelodau arfaethedig y Bwrdd am y flwyddyn i ddod.

Gofynnwyd i aelodau ethol yr aelodau Bwrdd canlynol:

- Cadeirydd Annibynnol: **Gerraint Oakley**
- Penodi aelodau cyfetholedig cyfredol y Bwrdd: **Lesley Kirkpatrick**<br>**Rachel Storr-Barber**<br>**Sarah Schofield**<br>**Sharon Lee**<br>**Stacy Thomas**
- Ailbenodi aelod cyfredol y Bwrdd: **Alan Brunt**

**Penderfyniad: Cafodd y cynnig i gymeradwyo ethol yr aelodau Bwrdd canlynol ei gynnig gan Michelle Reid a'i eilio gan Scott Sanders.**

**Gweithredu: Caiff enwau holl aelodau'r Bwrdd eu dychwelyd i Tŷ'r Cwmnïau.**

Cyflwynodd Gerraint Oakley, y Cadeirydd newydd, ei hun a rhoddodd drosolwg i aelodau o'i gefndir hyd yma, gan gadarnhau ei swydd bresennol fel Cyfarwyddwr Gweithredol Platform Housing Group. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at y 12 mis nesaf a chydweithio ar yr heriau i ddod.

## 10. Unrhyw fater arall

Diolchodd Andrew Martyn-Johns, y Cadeirydd sy'n ymddeol, am y tro diwethaf i bawb oedd yn bresennol ac am y cyfraniadau yn ystod y flwyddyn.

Diolchodd Michelle Reid o Cartrefi Cymoedd Merthyr i Stuart Ropke, y Prif Weithredwr, am ei gefnogaeth ac arweiniad anhygoel dros yr ychydig fisoedd diwethaf, wrth i aelodau drin y materion i'r sector yn ymwneud â Deddf Rhentu Cartrefi Cymru/EICS. Cadarnhaodd arweinyddiaeth wych Stuart i aelodau gan y rhai oedd yn bresennol.

Nid oedd busnes pellach. Daeth y cyfarfod i ben am 17:12.

**Atodiad A – Penodi Aelodau Bwrdd CHC a P&R**

Aelodau'r Bwrdd yn ymddeol o Fyrddau CHC a P&R:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Andrew Martyn-Johns | Cadeirydd - Camu lawr o Fyrddau CHC a P&R ar 19/11/2024 |
| 2. | Andrew Vye | Camu lawr o Fyrddau CHC a P&R ar 19/11/2024 |

Penodir aelodau newydd y Bwrdd fel y dangosir isod:

| | Enw | Sefydliad | Teitl Swydd |
|---|---|---|---|
| 1. | Geraint Oakley – Cadeirydd | Annibynnol | d/g |

Aelodau cyfetholedig i'w penodi fel y dangosir isod:

| | Enw | Sefydliad | Teitl y Swydd |
|---|---|---|---|
| 1. | Lesley Kirkpatrick | Tai Dewis Cyntaf | d/g |
| 2. | Rachel Storr-Barber | ClwydAlyn | Pennaeth Llywodraethiant a Rheoleiddio |
| 3. | Sarah Schofield | Adra (Tai) Cyfyngedig | Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau |
| 4. | Sharon Lee | Tai Aelwyd | Prif Weithredwr |
| 5. | Stacy Thomas | Cartrefi Cymoedd Merthyr | Cyfarwyddwr Cartrefi a Lleoedd |

Aelodau cyfredol y Bwrdd i'w hailbenodi fel sy'n dilyn:

| | Enw | Sefydliad | Teitl y Swydd |
|---|---|---|---|
| 1. | Alan Brunt | Bron Afon | Prif Weithredwr |

Er gwybodaeth, caiff aelodau presennol y Bwrdd eu dangos isod:

| | Enw | Sefydliad | Teitl y Swydd |
|---|---|---|---|
| 1. | Aled Rowlands | Annibynnol | d/g |
| 2. | Hugh Barrett | Annibynnol | d/g |
| 3. | Kyle Burgess | Cadwyn | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |

Draft